



3D Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Brytse, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk

At yr Ymgeisydd ac at Gyfoeth Naturiol
Cymru

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010072

Dyddiad: 27 Mehefin 2016

Annwyl Syr/Madam

Rheol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd)¹

Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy.

Hysbysiad o gais am wybodaeth bellach

Ysgrifennaf ynghylch y cais uchod i ofyn am wybodaeth bellach o dan reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

Mae'r paragraff isod yn esbonio bod y llythyr hwn ar gael yn yr iaith Saesneg:

This letter is available in English on our website and a copy can be provided on request:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010072-001340>

Cais am wybodaeth bellach – yr Ymgeisydd a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Yng ngoleuni'r cyflwyniadau a dderbyniwyd ac a gydnabuwyd ar gyfer Dyddiad Cau 5 gan yr ymgeisydd a CNC, byddai'n fuddiol pe gallai'r ddau barti ymateb i'r cwestiynau isod a chyflwyno eu hymatebion erbyn Dyddiad Cau 6 erbyn hanner dydd ar **ddydd Llun 4 Gorffennaf 2016**.

1. O fewn y cyflwyniadau a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd a CNC erbyn Dyddiad Cau 5, dywedir bod yr ymgeisydd wedi tynnu'n ôl eu cais (ceisiadau) am Drwydded Amgylcheddol (TA). Gofynnwn i'r ymgeisydd a CNC baratoi Datganiad o Dir Cyffredin sy'n rhoi sylw i'r canlynol:

¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2010/103/contents/made>

- a) Pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cais (ceisiadau) TA a dynnwyd yn ôl nad yw ar gael ar hyn o bryd a pham nad yw ar gael ar hyn o bryd?
 - b) Pam na ellir caniatáu'r TA(au) a dynnwyd yn ôl cyn i'r wybodaeth hon fod ar gael, yn amodol ar amodau?
 - c) Pa geisiadau am TA(au) a wneir ar ôl cael Gorchymyn Caniatâd Datblygu (os rhoddir caniatâd)?
 - ch) Ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i CNC a heb ragfarnu ei benderfyniad ar unrhyw gais yn y dyfodol am TA(au):
 - i. A yw CNC yn fodlon y gellir rheoleiddio gollyngiadau posibl yn ddigonol o dan y fframwaith rheoli llygredd?
 - ii. A oes gan CNC unrhyw reswm i gredu na fydd y cais sydd heb ei benderfynu am TA(au) a nodir uchod yn cael ei ganiatáu?
 - d) Pa hyder sydd y bydd yr amodau y gellir eu gosod yn y TA(au) sydd heb ei phenderfynu/eu penderfynu yn gyson â gofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft?
2. Gan gyfeirio at Erthygl 9 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft, a wnaiff yr ymgeisydd ddarparu'r canlynol:
- a) Ail-eiriad a awgrymir ar gyfer Erthygl 9 er mwyn mynd i'r afael a'r ffaith i a65 Deddf Rheoli Llygredd 1974 gael ei diddymu gan Ddeddf Dadreoleiddio 2015.
 - b) Cyfiawnhad dros estyniad y ddarpariaeth fodel berthnasol, sy'n ymwneud yn unig â sŵn yn dod o'r safle.

Yn gywir

Stuart Cowperthwaite

Stuart Cowperthwaite
Awdurdod Arholi

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddiybnyu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.